

28 Medi 2017

Annwyl Syr/Fadam,

Diweddariad ar gyngor i weithredwyr busnesau bwyd ar werthu cnewyll bricyll a chnau almon chwerw

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi cyngori'n flaenorol na ddylid bwyta cnewyll bricyll amrwd. Mae hyn gan eu bod yn cynnwys y sylwedd naturiol amygdalin – glycosid syanogenig sy'n arwain at ryddhau syanid wrth dreulio'r cnewyll yng ngholuddion pobl.

Mae syanid yn docsin gwenwynig sy'n gallu achosi cyfog, gwres, cur pen, insomnia, syched, syrthni (*lethargy*), nerfusrwydd, poen yn y cymalau a'r cyhyrau, pwysedd gwaed yn disgyn, ac mewn achosion prin, fe all ladd.

Roedd y cyngor bwyta hwn yn seiliedig ar Safbwynt Wyddonol Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop¹ a oedd yn edrych ar y perygl i iechyd pobl a all fod o ganlyniad i fwyta cnewyll bricyll amrwd. Daeth Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop i'r casgliad y gallai oedolyn sy'n bwyta llai na hanner cnewyllyn mawr fwyta mwy na'r lefel ddiogel ar gyfer syanid. Ar gyfer plant bach (*toddlers*), tua hanner un cnewyllyn bach fyddai'r lefel hon. Dywedodd yr Awdurdod hefyd

nad yw'n bosibl gwahaniaethu rhwng cnewyll bricyll melys a chwerw mewn perthynas â'r lefelau syanid sy'n bresennol, ac felly'r perygl i iechyd pobl.

Yn dilyn trafodaethau â'r Comisiwn Ewropeaidd ac Aelod-wladwriaethau eraill, cytunwyd ar ddeddfwriaeth i reoli presenoldeb syanid mewn cnewyll bricyll. Sefydlwyd lefel uchaf o 20 mg/kg ar gyfer asid hydrocyanig mewn cnewyll bricyll amrwd heb eu prosesu, rhai chwerw a rhai melys, gan gynnwys cynhyrchion wedi'u melino, eu cracio neu eu torri a nodwyd yn Rheoliad y Comisiwn (UE) 2017/1237² sy'n diwygio adran 8 yr Atodiad i Reoliad (CE) Rhif 1881/2006.

Ni ddylid gwerthu cnewyll bricyll amrwd heb eu prosesu (chwerw na melys) i'w bwyta gan bobl, oni bod y lefelau syanid yn cydymffurfio â'r

¹ Peryglon iechyd difrifol sy'n gysylltiedig â phresenoldeb glycosidau syanogenig mewn cnewyll bricyll amrwd a chynhyrchion sy'n dod o gnewyll bricyll amrwd, Cyfnodolyn Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop 2016; 14(4): 4424 [47tt]

² <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32017R1237&from=HR>

deddfwriaeth. Mae Erthygl 2 2017/1237 yn nodi mai cyfrifoldeb gweithredwr y busnes bwyd yw dangos bod lefelau syanid ym mhob cynnyrch cnewyll bricyll heb eu prosesu, boed yn gyfan, wedi'u melino, wedi'u cracio neu eu torri, sydd wedi'u gosod ar y farchnad ar gyfer y defnyddiwr terfynol yn cydymffurfio â'r lefel uchaf hon. Felly, dylai gweithredwr y busnes bwyd allu darparu tystiolaeth bod lefelau syanid yn is na 20mg/kg yn y cynnyrch a werthir i'r defnyddiwr. Gan ei bod yn hysbys y gall lefelau syanid amrywio mewn cnewyll bricyll, mae'n bwysig bod y samplau sy'n cael eu profi yn gynrychiadol o'r swp cyfan. Mae'r rhan fwyaf o labordai yn ymwybodol o hyn, ac mae deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd sy'n nodi sut caiff samplu ei gyflawni i sicrhau ei fod yn cynrychioli'r swp cyfan³.

Mae tystiolaeth sy'n dangos bod y cnewyll bricyll yn deillio o ffynhonnell ddibynadwy lle mae'r lefelau syanid yn y cnewyll yn is na 20 mg/kg yn dderbyniol hefyd.

Bydd cnewyll bricyll wedi'u prosesu a ddefnyddir fel cyflasynnau neu gynhwysion mewn rhai bwydydd e.e. persipan, wedi cael eu trin â gwres, sy'n lleihau lefelau syanid. Mae'r rhain yn destun lefelau uchaf a ganiateir ar gyfer syanid, a nodir yn Rheoliad (CE) Rhif 1334/2008 ar gyflasynnau a chynhwysion bwyd penodol sydd â nodweddion cyflasynnau i'w defnyddio mewn ac ar fwyd.

Mae'r lefel uchaf o 20 mg/kg yn berthnasol i gnewyll bricyll amrwd heb eu prosesu, gan gynnwys ffurfiau wedi'u melino, eu cracio neu eu torri, a roddir ar y farchnad ar gyfer y defnyddiwr terfynol. Os oes llwythi o gnewyll bricyll sydd i fod i gael eu prosesu ymhellach e.e. i weithgynhyrchu persipan, dylai'r mewnforiwr/gweithredwr y busnes bwyd allu darparu tystiolaeth glir o'i ddefnydd bwriadedig un ai ar y label neu ar bob bag/blwch unigol, neu yn y dogfennau gwreiddiol sy'n cyd-fynd â'r cynnyrch. Os nad yw'r rhain ar gael, dylid darparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth â'r lefel uchaf a ganiateir o 20 mg/kg.

Ar hyn o bryd nid yw cnau almon chwerw, sydd hefyd yn cynnwys lefelau uchel o syanid, wedi'u cynnwys o fewn cwmplas y lefel uchaf o 20 mg/kg ar y ddealltwriaeth mai dim ond ar ôl cael eu prosesu ymhellach y cânt eu defnyddio, ac nad ydynt yn cael eu bwyta'n amrwd. Fodd bynnag, os yw'n amlwg bod cnewyll amrwd yn cael eu gwerthu i'w bwyta'n uniongyrchol gan bobl, a bod arwydd o risg i iechyd pobl, gellir cymryd camau gorfodi yn unol â chyfraith bwyd cyffredinol.

Yn gywir,

Ian Smith,
Polisi Bwyd

³Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 401/2006 (fel y'i diwygiwyd) yn nodi'r dulliau o samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli lefelau mycotocsinau mewn bwyd.